# POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

## Hydref 2025

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn cynnal Polisi Chwythu'r Chwiban i gynnal tryloywder, gonestrwydd, ac atebolrwydd trwy ddarparu fframwaith strwythuredig ar gyfer adrodd ar ac archwilio ymddygiad amhriodol. Mae'r polisi'n sicrhau cyfrinachedd a diogelwch i'r rheiny sy'n chwythu'r chwiban sy'n gweithredu er budd y cyhoedd wrth gydymffurfio â'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

### Cwmpas a Phwrpas

Mae'r polisi'n gymwys i holl gydweithwyr MaPS a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gan anelu at reoli datganiadau difrifol yn gyson ac i ddiogelu unigolion sy'n adrodd ar gamweithredu'n ddidwyll.

### Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Caiff y rheiny sy'n chwythu'r chwiban eu diogelu'n gyfreithiol wrth adrodd ar droseddau, torri'r gyfraith, camweinyddiad cyfiawnder, risgiau iechyd a diogelwch, niwed i'r amgylchedd neu guddio materion o'r fath, cyhyd a bod y datganiadau'n cael eu gwneud yn rhesymol ac yn ddidwyll.

### Ffyrdd o Adrodd ar Faterion

Caiff adroddiadau eu gwneud yn gyfrinachol trwy fewnflwch e-bost chwythu'r chwiban penodol, cysylltiadau mewnol penodol gan gynnwys y Pennaeth Llywodraethiant a Chadeirydd y Pwyllgor Archwiliadau, uwch arweinwyr neu'n uniongyrchol at yr Adran Gwaith a Phensiynau.

### Gweithdrefnau Archwilio

Wrth dderbyn datganiad, bydd Swyddog Archwilio diduedd yn cael ei benodi i archwilio'r achos, casglu gwybodaeth a chynnal cyfweliadau. Gall archwilwyr allanol eu penodi os oes angen er mwyn sicrhau gwrthrychedd. Mae angen digon o fanylion ar archwiliadau, ond nid oes angen prawf cadarn gan y rheiny sy'n chwythu'r chwiban.

### Cyfrinachedd

Caiff enw'r rheiny sy'n chwythu'r chwiban ei ddiogelu a'i gadw'n gyfrinachol oni bai bod ei ddatgeliad yn angenrheidiol yn gyfreithiol, gyda thrafodaeth o flaen llaw gyda'r unigolyn. Bydd hefyd ddisgwyliad o gyfrinachedd gan ohebwyr ar ôl i'r ymchwiliadau ddod i ben.

### Monitro ac Adrodd

Bydd cofrestr gyfrinachol yn cadw manylion allweddol ar ddatganiadau ac ymchwiliadau sy'n agored i'w hagor gan uwch bersonél llywodraethu gydag ystadegau chwythu'r chwiban yn cael eu hadrodd i'r Awdit, y Pwyllgor Risg a Sicrwydd ac mewn adroddiadau blynyddol.

## Cymorth a Lles

Mae MaPS yn ymrwymo i gefnogi’r rheiny sy’n chwythu’r chwiban trwy gydol y broses, gan gynnig cyfrinachedd, parch a mynediad at adnoddau lles.

## Canlyniadau ac Apeliadau

Mae gan unigolion y gwneir datgeliadau yn eu herbyn yr hawl i ymateb a chael cwmni mewn cyfarfodydd. Os ydynt yn anfodlon â chanlyniadau'r ymchwiliad, gall y rheiny sy’n chwythu’r chwiban apelio at uwch swyddogion MaPS neu ddwysáu pryderon yn allanol i awdurdodau perthnasol gan gynnwys DWP, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

**Os oes angen unrhyw wybodaeth pellach arnoch ar hyn, defnyddiwch ein tudalen Cysylltu â ni.**